Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**
DYDDIAD	**4 Rhagfyr 2018**
GAN	**Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

Rheoliadau Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad gan y Comisiwn (UE) Rhif 1303/2013

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig.

Ni chaiff unrhyw swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo gan yr offeryn hwn. Os bydd angen i swyddogaethau o'r fath gael eu trosglwyddo bydd offeryn ar wahân yn ymdrin â hynny.

Mae'r pwerau gweinyddol a gaiff eu harfer gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â datblygu gwledig yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod perthnasol (Gweinidogion Cymru) yn ddilyffethair.

Diben y diwygiadau
Mae effaith yr Offerynnau Statudol hyn yn gyfyngedig o ran galluogi Rheoliadau'r UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol os na fydd unrhyw gytundeb adeg ymadael â'r UE. Gwneir hyn er mwyn galluogi'r rhaglenni presennol yn y DU a gyllidir ar hyn o bryd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i barhau i weithredu yn yr un modd am weddill cyfnod rhaglen 2014-2020.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-european-structural-and-investment-funds-common-provisions-amendments-eu-exit-regulations-2018

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.